



**Tasg 2**

**Ble oedd y dyfarnwr?**

Tybed ble oedd y dyfarnwr? Pam doedd e ddim yn y gêm?

1. Chi ydy'r dyfarnwr. Meddylwch am resymau pam doeddech chi ddim yn y gêm, e.e.

Mae'n ddrwg gen i  
doeddwn i ddim yn y  
gêm achos roeddwn i  
...

Mae'n flin gyda fi  
doeddwn i ddim yn y  
gêm achos roeddwn i  
...

Mae'n ddrwg gen i  
doeddwn i ddim yn y  
gêm achos roedd rhaid  
i mi ...

Mae'n flin gyda fi  
doeddwn i ddim yn y  
gêm achos roedd rhaid  
i fi ...

Ddydd Sadwrn,  
roeddwn i ... ac  
anghofiais i am y gêm,  
mae'n ddrwg gen i.


Ddydd Sadwrn, roeddwn i  
... ac anghofiais i am y gêm,  
mae'n  
flin gyda fi.

Siaradwch am eich syniadau.  
Gofynnwch gwestiynau i'ch gilydd.

Dyma ychydig o help i chi:

Ble oeddet ti ...?  
Beth oeddet ti'n wneud?  
Pam oeddet ti ...?  
Pryd yn union oeddet ti ...?  
Gyda pwy oeddet ti ...?  
Sut oeddet ti'n ...?

Roeddwn i yn ... / ar ...  
Roeddwn i'n ...  
Roeddwn i ... achos ...  
Roeddwn i ... o ... tan ...  
Roeddwn i gyda ...  
Roeddwn i'n ...




Ble est ti?  
Beth wnest ti?  
Pam est ti i ...?  
Pryd yn union est ti i...?  
Gyda pwy est ti?  
Sut est ti ...?

Es i i ...  
(Chwaraeais i ...)  
Es i i ... achos ...  
Es i i ... am ...  
Es i gyda ...  
Es i mewn / ar / yn ...

2. Rydych chi'n mynd i ysgrifennu llythyr at y timau i ymddiheuro.  
Yn gyntaf, cynlluniwch y llythyr:

<p>Annwyl dimau,</p> <p>Mae'n ddrwg gen i doeddwn i ddim yn y gêm ddydd Sadwrn achos ... Mae'n flin gyda fi doeddwn i ddim yn y gêm ddydd Sadwrn achos ...</p> <p>Mae'n ddrwg iawn gen i am hyn. Mae'n flin iawn gyda fi am hyn.</p> <p>Yn gywir iawn,</p>	<p>Cyfeiriad</p> <p>Dyddiad</p> <p>Y manylion, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• ble</li><li>• beth</li><li>• pam</li><li>• pryd</li><li>• gyda pwy</li><li>• sut</li></ul> <p>Gorffen y llythyr</p> <p>Eich enw chi</p>
--	---



3. Newyddion.  
Mae'r stori yn y rhaglen newyddion ar y teledu!

**Chwarae rôl:**

Partner 1: Chi ydy'r dyfarnwr – atebwch y cwestiynau ac ymddiheurwch.

Partner 2: Chi ydy'r cyflwynydd ar y rhaglen newyddion – gofynnwch gwestiynau.

Geirfa	
doeddech chi ddim	you weren't
doeddwn i ddim	I wasn't
ymddiheuro	to apologise
cynllunio	to plan
cyflwynydd	presenter

